

6. Darparu Gwybodaeth

Mae'r bennod hon yn manylu ar swyddogaethau a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu, penaethiaid, ALLau a sefydliadau addysgol eraill o safbwynt darparu gwybodaeth i'w gilydd, i rieni ac i Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r prif fathau o wybodaeth yn cynnwys:

- cynlluniau plant a phobl ifanc (CPPHI);
- cyfarwyddyd gyrfa;
- gwybodaeth gan y corff llywodraethu i'r ALI;
- gwybodaeth gan y corff llywodraethu i rieni;
- cofnodion academaidd disgyblion ac adroddiadau disgyblion;
- gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Diogelu Data 1998;
- gwybodaeth gan y corff llywodraethu i Lywodraeth y Cynulliad;
- gwybodaeth gan y pennaeth i'r corff llywodraethu;
- [Deddf Rhyddid Gwybodaeth](#) 2000 a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â hi.

Cefndir

1. Bydd llywodraethwyr ysgol yn cael gwybodaeth gan yr ALI, y pennaeth a Llywodraeth y Cynulliad. Bydd peth ohoni'n wybodaeth gefndir a gânt pan ymunant gyntaf â'r corff llywodraethu. Anfonir deunydd arall i'r corff llywodraethu cyfan o bryd i'w gilydd i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau.
2. Rhaid i'r corff llywodraethu ddarparu gwybodaeth benodol; peth ohoni i rieni neu ddisgyblion, peth i'w ALI, peth i'r pennaeth a pheth i Lywodraeth y Cynulliad.

Gwybodaeth a roddir gan yr ALI

3. Pan benodir llywodraethwr, dylai ef neu hi gael gwybodaeth gefndir gan yr ALI, gan gynnwys:
 - copi o offeryn llywodraethu'r ysgol, sy'n nodi cyfansoddiad y corff llywodraethu;
 - copi o Gynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPHI) yr Awdurdod Lleol sy'n pennu strategaeth yr awdurdod ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau i blant a phobl ifanc perthnasol.
4. Ar ôl creu drafft o'r CPPHI, rhaid iddo gael ei gyhoeddi er mwyn cynnal ymgynghoriad yn ei gylch yn unol â Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007. Ymhlith eraill, rhaid rhoi copïau ymgynghori i bennaeth a chorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod a'r awdurdod esgobaethol priodol yn achos unrhyw ysgol sefydledig neu wirfoddol yn yr ardal.

5. Rhaid i'r ALI ddarparu gwybodaeth ariannol sy'n ymwneud â'r ysgol i'r corff llywodraethu a'r pennaeth.

Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (CPPH)

6. O dan Ddeddf Plant 2004, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol ac asiantaethau partner i gydweithredu er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Gwneir hyn trwy gyfrwng 22 Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc statudol.

7. Mae'n rhaid sefydlu partneriaethau er mwyn cydweithio i gynhyrchu un Cynllun Plant a Phobl Ifanc unigol, sy'n pennu gweledigaeth strategol, blaenoriaethau a thargedau'r Partneriaeth, ac yn darparu sylfaen ar gyfer cydgomisiynu gwasanaethau. Y Cynllun yw'r datganiad allweddol ar gyfer gweithgareddau cynllunio i blant a phobl ifanc a rhaid i bob cynllun lleol arall fod yn ystyriol o hyn.

8. Diben y Cynllun yw sicrhau bod yr holl ddarparwyr yn rhannu cyfrifoldeb ac adnoddau'n effeithiol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, yn lleol ac yn genedlaethol, gan gynnwys eu blaenoriaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wraidd y Cynllun, yn unol â 7 Prif Amcan Llywodraeth y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc. Mae Amcan Craidd 2 yn datgan bod rhaid i amrywiaeth gynhwysfawr o addysg, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu fod ar gael i bob plentyn a pherson ifanc.

9. Mae'r Cynllun cyntaf yn para rhwng 2008 a 2011 a bydd y Partneriaethau'n cyhoeddi adolygiad o'r cynnydd erbyn mis Hydref 2009.

Gwybodaeth i Ddarparwyr Gwasanaethau Gyrfaoedd Statudol

10. Rhaid i ysgolion gynnig deunydd cyfarwyddyd i ddisgyblion yn ogystal ag amrywiaeth eang o ddeunydd cyfeirio cyfoes sy'n gysylltiedig ag addysg gyrfaoedd a chyfleoedd gyrfa. Lle'n bosibl, dylid gosod y wybodaeth hon mewn llyfrgell gyrfaoedd benodol sy'n cynnig adnoddau cyfrifiadurol. Dylai pob disgybl uwchradd allu defnyddio'r adnoddau hyn.

11. Dylai'r ysgol a'r gwasanaeth gyrfaoedd adolygu pa mor effeithiol yw'r system gyfredol o ddarparu gwybodaeth gyrfaoedd o safbwynt diwallu anghenion y disgyblion - gan gynnwys gwybodaeth am opsiynau addysg a hyfforddiant ôl-16. Dylai cyngor ac unrhyw ddeunydd ategol ar gyfer y llyfrgell gyrfaoedd fod yn rhan o Gytundeb Partneriaeth blynyddol rhwng yr ysgol a'r gwasanaeth gyrfaoedd.

12. Rhaid i ysgolion ddarparu copi o'u llawlyfr i'r gwasanaeth gyrfaoedd lleol (sy'n cynnwys gwybodaeth am gyflawniadau a chyrchfannau'r disgyblion a gyflawnodd eu hastudiaethau'r flwyddyn honno), er mwyn ei helpu yn ei waith gyda phobl ifanc (yn enwedig gyda disgyblion blwyddyn 10 ac 11).

13. Rhoddir enw a chyfeiriad pob disgybl perthnasol yn y sefydliad ar gais i gynghorwyr gyrfaoedd neu aelodau staff perthnasol o wasanaeth gyrfaoedd lleol Llywodraeth y Cynulliad. Rhoddir iddynt hefyd unrhyw wybodaeth sydd gan yr ysgol am ddisgybl (gan gynnwys cyflawniad academaidd) sydd ei hangen ar gynghorydd gyrfaoedd er mwyn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r disgybl ar yrfaedd neu roi gwybodaeth arall iddo sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau o'r fath. Gall rhieni neu warcheidwad wrthod caniatáu i enw a chyfeiriad cartref disgybl (o dan 18 oed) gael eu darparu neu gall y disgybl ei hun (18 oed a hŷn) wrthod rhoi ei fanylion gan ddweud pa wybodaeth na ddylid ei rhannu.

Gwybodaeth gan y Corff Llywodraethu i'r ALI

14. O dan Reoliadau Adran 537 o Ddeddf Addysg 1996, rhaid i gorff llywodraethu ddarparu gwybodaeth benodol i'r ALI am yr ysgol a gwaith y corff llywodraethu os yw'r ALI yn gofyn amdani.

15. Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod manylion y trefniadau a wnaed ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ar gael i'r ALI.

Gwybodaeth gan y Corff Llywodraethu i Rieni

Prosbectws yr Ysgol

16. Bob blwyddyn, rhaid i'r corff llywodraethu gyhoeddi prosbectws yr ysgol ar gyfer y rhieni a'r darpar rieni. Rhaid i'r prosbectws nodi'r canlynol:

- enw'r ysgol, ei chyfeiriad a'i rhif ffôn;
- enw'r pennaeth a chadeirydd y corff llywodraethu;
- datganiad byr sy'n disgrifio ethos a gwerthoedd yr ysgol;
- datganiad cwricwlwm sy'n cynnwys crynodeb o'r cynnwys, eglurhad o sut y caiff ei drefnu ar gyfer y gwahanol grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol a disgrifiad o'r dulliau addysgu a ddefnyddir;
- manylion am bolisi derbyn yr ysgol;
- crynodeb o bolisi'r corff llywodraethu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys y rhai hynny sydd â datganiadau a'r rhai hynny nad oes ganddynt ddatganiadau;
- manylion am yr addysg grefyddol a ddarperir, gyda nodyn yn atgoffa rhieni y gallant dynnu eu plant allan o'r cyfan neu o ran o'r addysg grefyddol ac o wasanaethau, a manylion am unrhyw drefniadau a sefydlwyd er mwyn i rieni allu arfer yr hawliau hyn;
- manylion unrhyw gysylltiadau sydd gan yr ysgol â chrefydd neu enwad crefyddol arbennig;
- cyfraddau absenoldeb disgyblion (gan gynnwys manylion am absenoldeb wedi'i awdurdodi a diawdurdod);

- gwybodaeth am ganlyniadau asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol yr ysgol;
- gwybodaeth am ganlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn genedlaethol;
- y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion;
- yr agwedd gyffredinol tuag at addysg rhyw;
- datganiad o amcanion yr ysgol o ran chwaraeon a'r hyn a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer chwaraeon;
- y polisi ar godi tâl a pheidio â chodi tâl;
- dyddiadau tymhorau ac amseroedd y sesiynau;
- i ba raddau y defnyddir y Gymraeg yn yr ysgol fel cyfrwng addysgu ac fel iaith gyfathrebu o ddydd i ddydd, a
- manylion diwrnodau agored ac ymweliadau â'r ysgol.

Rhaid i ysgolion uwchradd gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol:

- manylion nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael yn y flwyddyn ysgol gyfredol a nifer y ceisiadau a'r rhieni sydd â diddordeb yn y lleoedd hynny;
- gwybodaeth am ganlyniadau arholiadau allanol yr ysgol yn achos arholiadau disgyblion 15 a 17 oed;
- ffigurau cyfartalog lleol a chenedlaethol ar gyfer arholiadau allanol disgyblion 15 a 17 oed;
- crynodeb o gyrchfannau disgyblion a adawodd yr ysgol ar ddiwedd y flwyddyn ysgol flaenorol; a
- manylion unrhyw addysg gyrfaoedd a ddarperir a threfniadau profiad gwaith.

17. Gallai'r prospectws hefyd egluro sut y gallai rhieni ac eraill weld (a chael gafael ar) y dogfennau y mae'n rhaid i'r pennaeth eu cadw er mwyn i unrhyw eu darllen yn yr ysgol.

18. Ceir manylion llawn am gynnwys prospectysau ysgol yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999.

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr

19. Rhaid i'r corff llywodraethu hefyd baratoi adroddiad blynyddol i'w drafod yng nghyfarfod blynyddol y rhieni. Bydd hwn yn egluro sut y mae'r corff llywodraethu wedi rhoi ei gynlluniau ar gyfer yr ysgol ar waith ers yr adroddiad blaenorol. Gall ysgolion ddsbarthu crynodeb o'r adroddiad, yn hytrach na'r adroddiad llawn, sy'n cynnwys gwybodaeth benodol (sydd wedi'i marcio â * isod), i'r holl rieni. Rhaid i'r crynodeb gynnwys manylion ar sut y

gall rhieni wneud cais am gopi o'r adroddiad llawn. Rhaid i'r adroddiad llawn gynnwys y canlynol:

- manylion cyfarfod blynyddol y rhieni gan gynnwys yr amser, y dyddiad, y lleoliad, yr agenda a nodyn ar ddiben y cyfarfod;*
- adroddiad ar yr ystyriaeth a roddwyd i unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod diwethaf;*
- enwau a statws (rhieni, athrawon, llywodraethwyr sefydledig neu fel arall) aelodau'r corff llywodraethu a chyfnodau eu swyddi, ac enw a chyfeiriad y cadeirydd a'r clerics (gellir defnyddio cyfeiriad yr ysgol);*
- unrhyw wybodaeth sydd ar gael i'r corff llywodraethu ynglŷn ag ethol rhiant-lywodraethwyr yn y dyfodol;
- gwybodaeth am berfformiad a thargedau gan gynnwys canlyniadau asesiadau diwedd cyfnodau allweddol ac arholiadau allanol ar gyfer yr ysgol ac yn genedlaethol;*
- manylion y targedau a bennwyd gan y corff llywodraethu ar gyfer y tair blynedd nesaf a'r cynnydd o gymharu â'r targedau diweddaraf;*
- datganiad ariannol yn rhoi crynodeb o gyllideb yr ysgol, sut y gwariwyd y cyllid a roddwyd i'r corff llywodraethu yn y flwyddyn a aeth heibio, manylion am unrhyw roddion i'r ysgol a threuliau teithio, llety a chynhaliadau llywodraethwyr yn y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad;
- gwybodaeth ynglŷn â pha mor llwyddiannus fu'r ysgol wrth weithredu polisi'r corff llywodraethu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, ac unrhyw newidiadau sylweddol i'r polisi;
- manylion gwaith ymgynghori â'r ALI er mwyn trefnu darpariaeth AAA (mae hyn yn berthnasol i ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol ac ysgolion sefydledig);
- sut y dyrannwyd adnoddau ymysg disgyblion AAA ers yr adroddiad diwethaf;
- cynnydd o safbwynt cyflawni amcanion chwaraeon ac unrhyw gyflawniadau gwerth eu nodi yn ystod y flwyddyn yr adroddir arni;
- cyfraddau absenoldeb disgyblion (gan gynnwys manylion absenoldeb wedi'i awdurdodi a diawdurdod);
- y camau a gymerwyd i ddatblygu neu gryfhau cysylltiadau â'r gymuned;
- y camau a gymerwyd i adolygu polisiâu'r ysgol ac i roi ar waith ac adolygu strategaethau ysgol penodol;
- gwybodaeth am gyrchfannau disgyblion a oedd yn 16 oed neu'n hŷn yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol; a
- dyddiadau'r tymhorau ac amseroedd y sesiynau.

20. Gallai'r corff llywodraethu fod yn dymuno cynnwys gwybodaeth arall hefyd, fel gwybodaeth am y cwricwlwm, safonau ymddygiad a sut i gwyno.

21. Mae'n debygol y bydd y corff llywodraethu am i'r pennaeth drefnu bod yr adroddiad ar gael i'w ddarllen ar unrhyw adeg resymol ac am ddim yn yr ysgol.

Cofnodion Addysgol Disgyblion

22. Mae'r **cofnod cwricwlar** yn gofnod ffurfiol o gyflawniadau academaidd, sgiliau eraill a chynnydd yn yr ysgol.

23. Mae **cofnod athro** yn gofnod a gedwir gan yr athro yn yr ysgol na fwriedir i'r athro ei gadw at ddibenion personol yn unig.

24. Mae'r **cofnod addysgol** yn gyfuniad o gofnod cwricwlar y disgybl a chofnodion yr athro.

25. Rhaid i bennaeth pob ysgol a gynhelir a phob ysgol arbennig na chaiff ei chynnal gan yr awdurdod addysg lleol gadw **cofnod cwricwlar** o bob disgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol honno. Rhaid diweddarau hyn bob blwyddyn.

26. Cyn i Ddeddf Diogelu Data 1998 ddod i rym, roedd hawl cyffredinol gan rieni i weld cofnod addysgol eu plentyn tra bod y plentyn o dan 18 oed; ac roedd hawl gan ddisgyblion 16 a hŷn i weld eu cofnodion eu hunain.

27. Ers i Ddeddf Diogelu Data 1998 ddod i rym:

- mae gan rieni yr un hawl cyffredinol i weld cofnodion eu plant;
- mae hawl y disgybl i weld y cofnodion wedi newid; nid yw oed y plentyn yn effeithio ar yr hawl mwyach. Yn hytrach, dylid caniatáu i blant sy'n cyflwyno ceisiadau ysgrifenedig weld eu cofnodion oni bai ei bod hi'n amlwg nad ydynt yn deall yr hyn y maent yn gwneud cais amdano.

28. Yn achos:

- **Disgyblion 17 oed ac iau**, gall y disgybl a/neu'r rhiant wneud cais i weld y cofnod ysgol.
- **Disgyblion 18 oed neu'n hŷn**, y disgybl yn unig all wneud cais i weld ei gofnod ysgol neu gall y rhiant wneud cais lle y bo'n briodol – er enghraifft yn achos disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

29. O fewn 15 diwrnod ysgol o dderbyn cais ysgrifenedig oddi wrth riant i ddatgelu cofnod addysgol y disgybl, rhaid i'r pennaeth sicrhau eu bod ar gael iddynt eu gweld am ddim.

30. O fewn 15 diwrnod ysgol o dderbyn cais ysgrifenedig oddi wrth riant am gopi o gofnod addysgol y disgybl, rhaid i'r pennaeth roi copi i'r rhiant. Gall y corff llywodraethu godi ffi am ddarparu copi o'r cofnod addysgol ond ni ddylai'r pris fod yn fwy na chost ei gynhyrchu.

31. Pan fo disgybl dan ystyriaeth i gael ei dderbyn i ysgol arall (gan gynnwys ysgol annibynnol) neu sefydliad addysg bellach neu leoliad addysg neu hyfforddiant arall, rhaid i'r pennaeth drosglwyddo cofnod addysgol y disgybl am ddim i'r person cyfrifol o fewn 15 diwrnod ysgol o dderbyn y cais. Rhaid i'r cofnod a ddarperir beidio â chynnwys unrhyw asesiadau o gyflawniad y disgybl.

32. Nid yw'r rheoliadau'n ymdrin â chyngor na gwybodaeth am ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Rheolir mynediad i'r wybodaeth honno gan y Cod Ymarfer ar Adnabod ac Asesu Anghenion Addysgol Arbennig a Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) 1994.

33. Mae cyngor a chyfarwyddyd pellach ar gadw, gwaredu, datgelu a throsglwyddo cofnod addysgol disgyblion ar gael yng nghylchlythyr cyfarwyddyd 18/2006 ar 'Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin'.

<http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/4038292/403829/educationalrecordsreportsctsw?lang=cy>

34. O dan rai amgylchiadau nid oes rhaid datgelu gwybodaeth benodol am ddisgyblion:

- gwybodaeth y mae'r pennaeth o'r farn y byddai ei datgelu yn debygol o greu niwed difrifol i iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol y plentyn neu rywun arall;
- gwybodaeth ynglŷn ag a yw'r plentyn, yn nhyb y pennaeth, wedi dioddef neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, lle na fyddai datgelu'r wybodaeth honno o fudd i'r plentyn;
- gwybodaeth ynglŷn â'r plentyn sydd hefyd yn berthnasol i unigolyn arall y gellir ei adnabod o'r wybodaeth honno, neu sy'n enwi unigolyn arall fel yr un a ddarparodd y wybodaeth honno, oni bai bod yr unigolyn wedi rhoi caniatâd i ddatgelu'r wybodaeth, neu os yw datgelu'r wybodaeth heb ganiatâd yr unigolyn yn rhesymol o dan bob math o amgylchiadau, neu os yw'r unigolyn yn cael ei gyflogi gan yr ALI neu'r ysgol;
- gwybodaeth sy'n datgelu lefelau cyrhaeddiad neu unrhyw ganlyniadau eraill o safbwynt unrhyw dargedau cyrhaeddiad neu bwnc unrhyw ddisgybl penodol arall.

Deddf Diogelu Data 1998

35. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar bob sefydliad i ddiogelu unrhyw [wybodaeth bersonol](#) sydd ganddynt.
36. Wrth gasglu, cadw a phrosesu gwybodaeth bersonol am ddisgyblion, mae'r ysgol yn gweithredu fel 'Rheolydd Data'. Golyga hyn fod rhaid i'r ysgol gyflawni rhai rhwymedigaethau er mwyn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.
37. RHAID i bob ysgol:
- gyflawni hysbysiad i'w ychwanegu at y gofrestr proseswyr data a diweddarau ei hysbysiad bob blwyddyn. Gellir gwneud cais am hysbysiad naill ai drwy wefan y Comisiynydd Gwybodaeth neu drwy ffonio'r Adran Hysbysiadau: 01625 545740;
 - cyhoeddi Hysbysiad Prosesu Teg ar gyfer pob disgybl newydd sy'n dechrau yn yr ysgol;
 - sicrhau diogelwch y data a'r systemau ar gyfer ei storio a chael gafael arno. Mae'n bwysig dewis mesurau diogelwch sy'n addas i amgylchiadau'r ysgol. Dylid ystyried y risgiau, beth allai beryglu'r system ac i ba raddau'r mae'r system yn agored i niwed, a dewis y mesurau diogelwch priodol i ymdrin â hyn;
 - darparu gwybodaeth bellach am ddiogelu data a diogelwch, gan gynnwys templed. Gallwch weld Hysbysiadau Prosesu Teg yn y ffolderi 'Strategaeth Rheoli Gwybodaeth (SRhG) - Deunyddiau Cymorth i Ysgolion' a anfonwyd at bob pennaeth, pob ALI a phob corff llywodraethu yn 2008.
38. Ceir gwybodaeth ychwanegol yn: <http://www.ico.gov.uk/>
- http://new.wales.gov.uk/dcells/publications/policy_strategy_and_planning/schools/informationmanagementstrategy/datamanagement/ims_cymraeg.pdf?lang=cy

Ymdrin â Chwynion

39. Pennir ffyrdd o drafod rhai mathau o gwynion, er enghraifft derbyniadau a'r cwricwlwm, gan weithdrefnau statudol penodol. Gofynnir hefyd i gorff llywodraethu pob ysgol a sefydlir ac ysgol feithrin sefydledig sefydlu gweithdrefn i ymdrin â phob cwyn am yr ysgol ac unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau cymunedol y mae'r ysgol yn eu darparu. Dylai'r weithdrefn hon gael ei chyhoeddi hefyd (gweler Pennod 12, Cwynion a Chwythu'r Chwiban).

Yn Gyffredinol

40. Rhaid i'r pennaeth drefnu i rieni ac eraill gael mynediad at ystod o ddogfennau, a ddylai fod ar gael pan wneir cais ar bob adeg resymol. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwaith; meysydd llafur; prosectws yr ysgol a chylchlythrau.

41. Gall y pennaeth godi tâl am ddarparu copïau personol o rai dogfennau, er na ddylai'r pris fod yn fwy na chost eu cynhyrchu. Diogelir peth deunydd gan hawlfraint y llywodraeth ond gellir copïo'r deunydd hwn ar yr amod ei fod at ddefnydd personol.

Adroddiadau disgyblion

42. O leiaf unwaith y flwyddyn rhaid i'r pennaeth hefyd roi adroddiad ysgrifenedig ar gyflawniadau addysgol y plant i rieni disgyblion o dan 18 oed sydd ar gofrestr yr ysgol. Pan fo disgybl ar y gofrestr yn hŷn na 18 oed dylid rhoi'r adroddiad i'r disgyblion eu hunain, ond gellir ei ddarparu i'r rhiant os yw'r athro yn ystyried bod yna amgylchiadau arbennig. Rhaid i'r adroddiad ddangos canlyniadau'r disgybl yn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 1, 2 neu 3, fel y bo'n berthnasol, o gymharu â gwybodaeth debyg am ddisgyblion eraill yn yr ysgol ac mewn ysgolion eraill ledled Cymru. Rhaid i'r adroddiad hefyd nodi'r trefniadau ar gyfer trafod yr adroddiad gydag athro'r disgybl.

Cyfieithu Gwybodaeth a Dogfennau

43. Pan nodir bod hyn hynny'n angenrheidiol, rhaid i'r pennaeth gyfieithu'r wybodaeth y gofynnir amdani mewn perthynas â chofnod addysgol neu gofnod ysgol y disgybl i'r Saesneg, y Gymraeg neu iaith arall ac ni ddylid codi ffi am y gwasanaeth hwn.

“Rhieni” a “Chyfrifoldeb Rhiant”

44. Mae'r diffiniad o “riant” yn cynnwys:

- y rhieni naturiol, pa un a ydynt yn briod ai peidio;
- unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn neu berson ifanc, er nad yw'n rhiant naturiol; ac
- unrhyw berson, er nad yw'n rhiant naturiol nac yn berson â chyfrifoldeb rhiant, sydd â gofal am blentyn neu berson ifanc. Gallai hyn gynnwys llys-riant neu berthynas er enghraifft.

45. Serch hynny, yng nghyd-destun etholiadau rhiant-lywodraethwyr a chyfarfodydd blynyddol i'r rhieni, diffinnir “rhiant” yn y fath fodd fel na chynhwysir rhiant nad yw'n unigolyn, e.e. Plant sy'n Derbyn Gofal, pan fo gan awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant dros blentyn. I gael rhagor o wybodaeth am etholiadau rhiant-lywodraethwyr, gweler Pennod 3, Cyfansoddiad Cyrff Llywodraethu.

46. Y rheol gyffredinol yw bod gan bawb sy'n "rhiant", fel y'i diffiniwyd uchod, yr hawl i gyfrannu at benderfyniadau ynghylch addysg plentyn er efallai nad dyma'r unigolyn y bydd yr ysgol yn cysylltu ag ef o ddydd i ddydd.

47. Dylai ysgolion drin pob rhiant yn gyfartal oni bai fod gorchymyn llys yn cyfyngu ar hawl yr unigolyn i arfer cyfrifoldeb rhiant neu benderfynu ar fater penodol.

48. Ceir rhagor o wybodaeth am rieni a chyfrifoldeb rhiant yn <http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/4038293/1080190/parents-responsibilities-w.pdf?lang=cy>.

Trosglwyddo gwybodaeth pan fo Disgybl yn Newid Ysgol

49. Pan fo disgybl yn cael ei drosglwyddo i ysgol newydd, rhaid i'r pennaeth drosglwyddo gwybodaeth benodol ar ffurf electronig (a elwir yn Ffeiliau Trosglwyddo Cyffredin) gan ddefnyddio'r gwasanaeth trosglwyddo diogel a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad cyn gynted â phosibl unwaith i'r pennaeth gael gwybod bod y disgybl wedi cofrestru gydag ysgol newydd ac yn sicr o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl i'r disgybl ddod oddi ar gofrestr yr ysgol.

50. Mae gwybodaeth fanwl am y System Drosglwyddo Gyffredin a gwybodaeth am y disgybl a roddir yn y Ffeil Trosglwyddo Cyffredin ar gael yn http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/schools/ims/dataexchange/s2sandthefts/?skip=1&lang=cy.

51. Os bydd disgybl yn gadael yr ysgol ac, ar ôl wneud pob ymdrech rhesymol, nad yw'r pennaeth yn llwyddo i ganfod i ba ysgol mae'r disgybl wedi trosglwyddo neu os yw'n gwybod bod y disgybl wedi trosglwyddo i ysgol nas cynhelir neu dramor, dylai'r cofnod electronig gael ei drosglwyddo i ran ddynodedig o'r safle trosglwyddo.

Cytundeb rhwng y Cartref a'r Ysgol

52. Rhaid i'r corff llywodraethu sefydlu cytundeb ysgrifenedig rhwng yr ysgol a'r cartref, a luniwyd gan ymgynghori â'r rhieni. Dylai'r cytundeb egluro amcanion a gwerthoedd yr ysgol yn ogystal â chyfrifoldebau'r ysgol a'r rhieni a'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan y disgyblion. Rhaid i'r corff llywodraethu wahodd rhieni i arwyddo datganiad i ddweud eu bod yn cefnogi'r cytundeb. Gallant hefyd wahodd disgyblion i'w arwyddo os ydynt o'r farn fod y disgyblion yn ddigon aeddfed i wneud hynny. Ceir canllawiau ar gytundebau rhwng y cartref a'r ysgol yng nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 27/99 [Home-School Agreements Guidance for Schools](#) a gyhoeddwyd ym mis Mai 1999.

Gwybodaeth gan y Corff Llywodraethu i Lywodraeth y Cynulliad

53. Rhaid i'r corff llywodraethu roi manylion canlyniadau disgyblion unigol ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol i Lywodraeth y Cynulliad, er mwyn i'r Llywodraeth fedru paratoi a chyhoeddi dadansoddiadau cenedlaethol.

Gwybodaeth gan y Pennaeth i'r Corff Llywodraethu

54. Rhaid i'r pennaeth roi i'r corff llywodraethu unrhyw wybodaeth y mae'n gofyn amdani er mwyn iddo allu cyflawni'i ddyletswyddau.

Cyfieithu Dogfennau

55. Dylai'r corff llywodraethu ystyried a ddylid cyfieithu i ieithoedd eraill unrhyw rai o'r dogfennau y mae'n rhaid eu cyhoeddi neu y mae'n rhaid trefnu eu bod ar gael i'w harchwilio yn yr ysgol. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys y prospectws neu fanylion am drefniadau'r ALI ar gyfer ystyried cwynion ynglŷn â'r cwricwlwm. Os cred fod angen gwneud hynny, dylai drefnu iddynt gael eu cyfieithu.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

56. O dan [Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000](#), mae gan bawb yr hawl cyfreithiol i ofyn i'r ysgol am unrhyw wybodaeth sydd ganddi. Diben y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw hyrwyddo atebolrwydd a bod yn agored ymhlith cyrff y sector cyhoeddus, a thrwy hynny wella dealltwriaeth y cyhoedd o sut y mae awdurdodau cyhoeddus (sy'n cynnwys cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir) yn cyflawni'u dyletswyddau, yn gwneud penderfyniadau ac yn gwario arian cyhoeddus.

57. Y Comisiynydd Gwybodaeth sy'n goruchwyllo'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Dyletswyddau Rhyddid Gwybodaeth y Comisiynydd yw:

- hyrwyddo arfer da;
- rhoi cyngor a chyfarwyddyd;
- sicrhau cydymffurfiaeth ac ymchwilio i gwynion;
- adrodd i Senedd Prydain ar gydymffurfiaeth;
- cymeradwyo cynlluniau i'w cyhoeddi;
- rhoi cyhoeddusrwydd i'r Ddeddf.

58. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sef yr Adran Materion Cyfansoddiadol gynt, wedi cynhyrchu canllawiau ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gan gynnwys dau God Ymarfer sy'n rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau cyhoeddus ar roi'r Ddeddf ar waith ac ar reoli cofnodion.

59. Mae Cod Ymarfer yr Arglwydd Ganghellor ar [Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus o dan Ran 1 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth \(Adran 45\)](#) yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol ar arfer da wrth ymdrin â cheisiadau am wybodaeth. I gael rhagor o wybodaeth ewch i [wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder](#).

60. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd yn gyfrifol am [Ddeddf Diogelu Data 1998](#) a [Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004](#). Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn galluogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth amdanynt eu hunain. Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn galluogi pobl i gael gafael ar wybodaeth amgylcheddol.

61. Mewn egwyddor, mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn galluogi pobl i gael gafael ar bob math o wybodaeth, gan gynnwys y rhesymau dros wneud penderfyniadau neu greu polisiau na chânt sylw yn y Ddeddf Diogelu Data neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Er bod Rhyddid Gwybodaeth yn cymryd yn ganiataol bod pobl yn gweithredu mewn modd agored, mae'n cydnabod yr angen i ddiogelu gwybodaeth sensitif o dan rai amgylchiadau ac yn caniatáu eithriadau.

62. Mae unrhyw gais a wnaed yn ysgrifenedig i ysgol ers 1 Ionawr 2005 nad yw'n cael ei ystyried yn un cyffredin yn gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, y Ddeddf Diogelu Data neu gyfuniad o unrhyw rai ohonynt.

Yr hawl i wneud cais am wybodaeth

63. Ers 1 Ionawr 2005 bu hawl cyfreithiol gan bawb i wneud cais i ysgol i gael mynediad i'r wybodaeth sydd gan yr ysgol honno. Mae'n ddyletswydd ar ysgolion i ddarparu cyngor a chymorth i unrhyw un sy'n gwneud cais am wybodaeth a rhaid iddynt ymateb i'r ymholiad yn brydlon ac yn sicr o fewn 20 diwrnod gwaith o'i dderbyn (nid yw hyn yn cynnwys gwyliau'r ysgol). Gweler y [Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth \(Cyfnod Amser i Gydymffurfio â Chais\) 2004](#) sy'n nodi nad yw diwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau ysgol yn cael eu cynnwys yn y cyfnod o 20 diwrnod gwaith.

64. Nid oes rhaid i bobl sy'n gwneud ymholiad ddweud pam y maent eisiau'r wybodaeth, ac nid oes rhaid i'r cais gyfeirio at y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig, sy'n cynnwys ffacs neu e-bost. Bydd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol i bob cais nad yw'n un cyffredin ac nad yw'n cael ei gwmpasu gan Ddeddf Diogelu Data 1998 (h.y. cais gan unigolion i weld eu gwybodaeth bersonol eu hunain) neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

65. Mae hawl gan yr unigolyn sy'n gwneud ymholiad i gael gwybod a oes gan yr ysgol y wybodaeth dan sylw (gelwir hwn yn ddyletswydd i gadarnhau neu wadu). Os yw'r wybodaeth ar gael, rhaid caniatáu i'r unigolyn hwnnw fedru cael gafael arni. Gall hynny olygu darparu darnau o ddogfen neu grynoded o'r wybodaeth y gwnaethpwyd cais amdano, neu fynediad i'r ddogfen wreiddiol. Serch hynny, mae'r Ddeddf yn cydnabod yr angen i gynnal cyfrinachedd gwybodaeth sensitif o dan rai amgylchiadau ac mae'n pennu nifer o eithriadau i'r hawl hwn.

66. Ers 1 Ionawr 2005 mae yna bedwar prif achos pan nad oes rhaid cydymffurfio â chais dilys am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pan nad oes gan yr ysgol y wybodaeth;

- pan fo'r gost yn cyrraedd yr uchafswm o £450;
- pan ystyrir y byddai'r cais yn achosi niwed neu pan fo'r cais eisoes wedi'i wneud;
- pan fo un neu fwy o'r eithriadau'n berthnasol (gweler isod).

67. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn pennu cyfres o eithriadau. Mae rhai o'r eithriadau'n rhai di-amod ac mae eraill yn rhai amodol, sy'n golygu y gellir eu diystyru er lles y cyhoedd. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn http://www.ico.gov.uk/what_we_cover/freedom_of_information.aspx.

68. Diben llawer o'r eithriadau yw diogelu gwybodaeth sensitif neu wybodaeth gyfrinachol. Serch hynny, unig ddiben rhai ohonynt yw osgoi sefyllfa gyfreithiol lle bo dwy ddeddf wahanol yn cwmpasu'r un darn o wybodaeth y gwneir cais amdani neu pan fo'r wybodaeth eisoes ar gael drwy ddull arall. Mae'r eithriadau sy'n fwyaf tebygol o gael eu defnyddio gan ysgolion yn cynnwys:

- gwybodaeth y gellir cael gafael arni drwy ddull arall, er enghraifft gwybodaeth sydd ar gael drwy gynllun cyhoeddi neu wybodaeth y mae deddfwriaeth arall yn gorfodi'r ysgol i'w darparu;
- cais am wybodaeth bersonol sydd wedi'i chynnwys o dan y Ddeddf Diogelu Data (gall unigolion barhau i wneud "cais gwrthrych am wybodaeth" o dan y Ddeddf Diogelu Data – hynny yw, pan mae rhywun yn gwneud cais i weld pa wybodaeth bersonol sydd gan yr ysgol amdano neu amdani);
- gwybodaeth amgylcheddol: mae ymholiadau o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn rhai sy'n ymwneud ag aer, dŵr, tir, safleoedd naturiol, yr amgylchedd adeiledig, fflora a ffawna, iechyd, yn ogystal ag unrhyw benderfyniadau a gweithgareddau sy'n effeithio ar unrhyw rai o'r rhain. Gallai'r rhain gynnwys ymholiadau ynglŷn ag ailgylchu, mastiau ffôn, caeau chwarae ysgolion, meysydd parcio ac yn y blaen. I gael rhagor o gyfarwyddyd ar y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, ewch i wefannau'r [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) neu [DEFRA](#).

69. Gweithdrefn gwyno gyfredol yr ysgol ddylai fynd i'r afael ag unrhyw anfonlonrwydd. Ar ôl dilyn yr holl weithdrefnau, gellir cyflwyno'r cais i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sydd â dyletswydd i ymchwilio i gwynion.

Pa gamau gweithredu sydd angen i'r Corff Llywodraethu eu cymryd?

70. Mae cyrff llywodraethu ysgolion yn gyfrifol am sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r dybiaeth gyfreithiol newydd (ers mis Ionawr 2005) y bydd pawb yn ymddwyn mewn modd agored yn ei gwneud hi'n bwysicach nag erioed i ysgol lunio polisiau a chynnal ei gweithrediadau o ddydd i ddydd mewn ffordd sy'n dderbyniol yng ngolwg y cyhoedd.

71. Dylid nodi bod celu, difrodi, neu ddifa gwybodaeth yn fwriadol er mwyn osgoi ymateb i ymholiad yn drosedd. Felly, gallai corff llywodraethu, neu unrhyw un sy'n cael ei gyflogi gan gorff llywodraethu, yn swyddog corff llywodraethu, neu'n cael ei reoli ganddo (e.e. awdurdod cyhoeddus) fod yn agored i achos troseddol os bu achos o gelu, difrodi neu ddifa anghyfreithlon. Felly mae'n bwysig peidio â chymryd unrhyw gamau i ddileu neu ddiwygio cofnodion sy'n destun cais am wybodaeth.

72. O ystyried y gellir cyflwyno ceisiadau am wybodaeth i unrhyw un sy'n gweithio yn yr ysgol, dylai'r corff llywodraethu ystyried a yw pob aelod o staff yn ymwybodol o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a sut y mae'r ysgol yn trin ceisiadau am wybodaeth. Gall cyrff llywodraethu ddewis codi ffi, a rhaid ei chyfrifo yn unol â [Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data \(Terfynau a Ffioedd Priodol\) 2004](#). Ceir canllawiau ar godi ffioedd yn yr adran [Rhyddid Gwybodaeth](#) ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac ar [Wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder](#).

73. Dylai'r corff llywodraethu:

- gytuno ar gynllun cyhoeddi a pholisi mynediad Rhyddid Gwybodaeth os nad yw eisoes wedi gwneud hyn. Bydd rhaid i'r polisi bennu sut mae'r ysgol yn bwriadu trin ceisiadau a nodi y dylai pob aelod staff fod yn ymwybodol o'r broses;
- cytuno ar bolisi codi ffi sy'n gysylltiedig â cheisiadau. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn argymhell bod ysgolion yn ymateb i geisiadau syml am ddim, a chodi ffi os oes cost sylweddol;
- dirprwyo i'r pennaeth y cyfrifoldeb dros y polisi Rhyddid Gwybodaeth o ddydd i ddydd a'r broses o ddarparu cyngor, cyfarwyddyd, cyhoedusrwydd a dehongli polisi'r ysgol;
- ystyried dewis unigolyn i fod yn gyfrifol am Ryddid Gwybodaeth fel bod yna un pwynt cyswllt unigol; cydgysylltu gweithgareddau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig; gweithredu ag awdurdod yn achos materion sensitif posibl; ac ystyried pa wybodaeth a hyfforddiant a allai fod eu hangen ar y staff. Os am weld cyflwyniad PowerPoint cyffredinol, ewch i adran Rhyddid Gwybodaeth gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;
- ystyried y trefniadau goruchwylio mynediad at wybodaeth a'r broses o ddirprwyo i bwyllgor priodol y corff llywodraethu;
- sicrhau bod systemau trefnus o reoli cofnodion a gwybodaeth ar waith sy'n ymateb i geisiadau o fewn 20 diwrnod, ac eithrio gwyliau'r ysgol;
- cadw cofnod o achosion o wrthod darparu gwybodaeth a'r rhesymau am hyn yn ogystal ag apelau, gan roi cyfle i'r corff llywodraethu adolygu'i bolisi mynediad bob blwyddyn;

- ystyried cyhoeddi log datgelu ar wefan yr ysgol, sy'n rhoi sylw i ymatebion i geisiadau sydd wedi'u cyflwyno ac y gallai'r ysgol gyfeirio atynt wrth ymateb i geisiadau am yr un wybodaeth yn y dyfodol.

74. Ystyrir bod cyhoeddi log datgelu yn arfer da a thros gyfnod o amser gall fod yn ffordd ddefnyddiol o lywio strategaeth gyhoeddi gan y bydd yn tynnu sylw at feysydd o ddi-ddordeb y gallai'r ysgol eu hystyried wrth drefnu cyhoeddiadau yn y dyfodol. Serch hynny, cydnabyddir ei bod hi'n bosibl na fyddai log datgelu'n briodol ar gyfer ysgolion bach sydd ond yn derbyn nifer fach o geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

75. Ar ôl derbyn cais am wybodaeth dylai'r ysgol:

- benderfynu pa geisiadau sy'n berthnasol i'r Ddeddf Diogelu Data, y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;
- penderfynu a yw'r wybodaeth gan yr ysgol neu a ddylai'r cais gael ei chyfeirio i gorff arall;
- darparu'r wybodaeth os yw eisoes wedi'i rhyddhau i'r cyhoedd;
- rhoi gwybod i'r unigolyn a gyflwynodd y cais pan nad yw'r wybodaeth ar gael;
- ystyried a allai lles trydydd parti fod yn y fantol wrth ddatgelu gwybodaeth, ac ymgynghori â nhw os oes angen;
- ystyried a oes unrhyw eithriadau sy'n berthnasol ac a ydynt yn rhai di-amod neu amodol;
- cynnal prawf budd y cyhoedd i benderfynu a yw cadw at yr eithriad amodol yn fwy priodol na dateglu'r wybodaeth er budd y cyhoedd;
- sicrhau bod unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei dileu fel y nodir yn y canllawiau i ysgolion os ceir cais am ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol na ddylid ei chynnwys;
- penderfynu a fydd y gost amcangyfrifedig yn mynd y tu hwnt i'r terfyn priodol;
- ystyried a allai'r cais achosi niwed neu a yw'n cael ei ailadrodd.

Yn fyr

Y Corff Llywodraethu:

- rhaid iddo roi unrhyw wybodaeth berthnasol i'r ALI a Llywodraeth y Cynulliad;
- rhaid iddo gyhoeddi gwybodaeth benodol i rieni ym mhrosbectws yr ysgol;
- rhaid iddo gynhyrchu adroddiad blynyddol i rieni;

- rhaid iddo gadw cofnodion addysgol disgyblion;
- rhaid iddo anfon copi o brosbectws yr ysgol i'r gwasanaethau gyrfaoedd lleol a fydd yn ei ddefnyddio, ynghyd â deunyddiau eraill, yn eu gwaith gyda Blynyddoedd 10 ac 11;
- rhaid iddo lunio cytundeb rhwng yr ysgol a'r cartref, gan ymgynghori â'r rhieni, a gwahodd rhieni i'w arwyddo; a
- rhaid bod ganddo gynllun cyhoeddi a pholisi mynediad Rhyddid Gwybodaeth.

Y Pennaeth:

- rhaid iddo ef neu hi roi i'r corff llywodraethu unrhyw wybodaeth berthnasol y bydd yn gofyn amdani;
- rhaid iddo ef neu hi ganiatáu mynediad yn yr ysgol at ddogfennau ynglŷn â'r ysgol a'i threfniadau;
- rhaid iddo ef neu hi roi adroddiad ysgrifenedig i rieni ar gyflawniadau eu plentyn o leiaf unwaith y flwyddyn;
- rhaid iddo ef neu hi roi adroddiad i'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn cynnwys gwybodaeth am eu cyflawniadau erbyn 30 Medi yn dilyn y flwyddyn y gadawodd y disgyblion yr ysgol fel y manylir yn [adran 3](#) o 'Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosoglwyddo Gyffredin - Cadw, Gwaredu, Datgelu a Throsoglwyddo Gwybodaeth am Ddisgyblion', Cylchlythyr rhif 18/2006; a
- rhaid iddo ef neu hi anfon adroddiad i ysgol newydd disgybl yn cynnwys gwybodaeth benodol am gyflawniadau'r disgybl.

Y Gyfraith

Deddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973
Deddf Diogelu Data 1998
Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
Deddf Addysg 1996
Deddf Addysg 1997
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Deddf Addysg 2002

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004/1025
Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004/1026
Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999/1812
Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001
Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007/3562
Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Gwybodaeth) (Cymru) 1999/1442
Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007/2316

[Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth \(Cyfnod Amser i Gydymffurfio â Chais\) 2004](#)

[Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data \(Terfynau a Ffioedd Priodol\) 2004.](#)

Canllawiau

Cylchlythyr 12/2007 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: "Rhieni" a "Cyfrifoldeb Rhiant"

Cylchlythyr 31/2007 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau

Cylchlythyr 18/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin

Cylchlythyr 14/01 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Llawlyfrau Ysgolion

Cylchlythyr 15/01 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr

Canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar Ryddid Gwybodaeth. Mae [Gwefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder](#) yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyflawni Dyletswyddau Awdurdodau Lleol a'r Cod Ymarfer ar Reoli Cofnodion.

Awdurdod annibynnol yw'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n gyfrifol am waith gweinyddol ac am orfodi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.ico.gov.uk.